



Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

Swyddog LHDTTC+

Y Rôl:

Mae dau Swyddog LHDTTC+ yn cael eu hethol i gynrychioli buddiannau myfyrwyr LHDTTC+. Mae'r rhain yn rolau gwirfoddol a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ochr yn ochr â'u hastudiaethau. Bydd pob Swyddog etholedig yn cael hyfforddiant a chefnogaeth i gyflawni eu rôl, felly nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol. Mae un lle wedi'i gadw ar gyfer myfyriwr Traws, ac un yn lle agored.

Bydd y Swyddogion LHDTTC+ yn:

- Cynrychioli myfyrwyr LHDTTC+
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo buddiannau'r myfyrwyr y maent yn eu cynrychioli
- Lobio am newid ar draws y brifysgol
- Cynllunio a rhedeg ymgyrchoedd
- Mynychu cyfarfodydd Undeb y Myfyrwyr a chysylltu'n rheolaidd â staff allweddol

Sgiliau y byddwch yn eu datblygu:	Cyfleoedd a buddion:
<ul style="list-style-type: none">• Arweinyddiaeth• Cyfathrebu• Sgiliau trefniadol• Sgiliau gwrando a rhyngpersonol• Lobïo• Gwaith tîm• Profiad cynllunio prosiectau• Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd	<ul style="list-style-type: none">• Hyfforddiant mewnol gan yr UM• Cefnogaeth a mentora gan staff yr UM• Rhywbeth gwych i roi ar eich CV• Cyfarfod pobl newydd• Dod i ymwneud mwy a'r UM• Cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiad myfyrwyr.

Cymhwysedd:

Os ydych yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Caerdydd, mae hawl gennych sefyll yn etholiadau Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys israddedigion yn ogystal â phob myfyriwr rhan-amser, myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr ôl-raddedig ac ymchwil, a myfyrwyr rhyngwladol.

Enwebwch eich hun: cardiffstudents.com/elections



The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Etholiadau ar etholiadau@cardiff.ac.uk.



The heart of Cardiff student life
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd